OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2014 Rhif 1201 (Cy. 117)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A494 a'r A550 (Cyfnewidfa Queensferry i Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 MYA) (Diwygio) 2014

Gwnaed	*8 Mai 2014*
Yn dod i rym	*10 Mai 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494 a'r A550) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd, oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Mai 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A494 a'r A550 (Cyfnewidfa Queensferry i Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 MYA) (Diwygio) 2014.

(**1**) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Diwygio Gorchymyn Cefnffyrdd yr A494 a'r A550 (Cyfnewidfa Queensferry i Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 MYA) 2014

2.—(1) Mae Gorchymyn Cefnffyrdd yr A494 a'r A550 (Cyfnewidfa Queensferry i Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 MYA) 2014(**1**)**(3)** wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Yn erthygl 1, yn y testun Saesneg, yn lle "Queensferry Interchange to Deside Interchange, Flintshire", rhodder "Queensferry Interchange to Deeside Park Interchange, Flintshire".

(3) Yn erthygl 1, yn y testun Cymraeg, yn lle "Cyfnewidfa Queensferry i Gyfnewidfa Glannau Dyfrdwy", rhodder "Cyfnewidfa Queensferry i Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint".

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Mai 2014.

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau Llywodraeth Cymru

(**1**) O.S. 2014/1200 (Cy. 116)